Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru

## 2024-2025

llyw.cymru

# Rhagair



**Eluned Morgan AS**

PRIF WEINIDOG CYMRU

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol y Rhaglen Lywodraethu yn ystod tymor y Senedd hon a'r cyntaf i mi fel Prif Weinidog.

Cyn inni edrych ymlaen tua'r dyfodol, felly, hoffwn ddechrau drwy edrych yn ôl. Rwyf am ddiolch i Mark Drakeford am ei arweinyddiaeth neilltuol ac am fynd ati gyda'r fath ofal i lunio'r Rhaglen Lywodraethu hon. Diolch hefyd i Vaughan Gething, am symud yr uchelgais honno yn ei blaen gydag ymrwymiad a phenderfyniad.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos ein pwyslais diflino ar gyflawni.

Yr hydref diwethaf, penodais Julie James yn Weinidog Cyflawni – oherwydd bod gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yn galw am ganolbwyntio'n ddiwyro ar gyrraedd y nod, gweithredu ar frys a chydweithredu. Rwyf am ddiolch i Julie am ymgymryd â'r rôl gyda phenderfyniad ac egni a chan ddangos arweinyddiaeth, a thrwy hynny helpu i ysgogi'r camau gweithredu a'r canlyniadau y cafodd y llywodraeth hon ei hethol i'w cyflawni.

Nodwyd hefyd y flwyddyn hon drobwynt yn y ffordd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae'r bartneriaeth sydd wedi'i chryfhau wedi datgloi £1.5 biliwn yn ychwanegol i Gymru. Mae'n arwydd o hyder gwirioneddol yn ein gallu i gyflawni, ac rydym wedi gwneud yn siŵr bod pob un bunt yn cael ei defnyddio er budd pobl Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein pwyslais wedi parhau'n gadarn ar yr hyn sydd fwyaf pwysig i fywydau pobl. Mae hynny'n golygu Gwell Iechyd – torri amseroedd aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a sicrhau bod triniaethau yn ôl ar y trywydd iawn yn dilyn y pandemig, fel y gall mwy o bobl gael y gofal sydd ei angen arnynt, pan fo'i angen arnynt. Mae'n golygu Mwy o Swyddi – cefnogi teuluoedd drwy greu swyddi, ni waeth a yw hynny mewn ynni glân, arloesi digidol ynteu mewn prosiectau seilwaith mawr fel cam olaf ffordd Blaenau'r Cymoedd.

Mae'n golygu Gwell Trafnidiaeth – trawsnewid sut rydym yn cysylltu ein cymunedau drwy well rheilffyrdd a ffyrdd, a rhwydwaith bysiau mwy dibynadwy, cydgysylltiedig, diolch i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Ac mae hefyd yn golygu Mwy o Gartrefi – cyflawni ein hadduned uchelgeisiol o 20,000 o dai cymdeithasol newydd, fel bod pob teulu yn cael y cyfle o le diogel a fforddiadwy i fyw.

Ond mae cyflawni hefyd yn golygu gwneud penderfyniadau beiddgar, ar gyfer y tymor hir. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth allweddol i unioni'r hyn nad yw'n gweithio a llunio gwell dyfodol. Bydd Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn dod â threfn o'r diwedd i system sydd am gyfnod rhy hir wedi gadael gormod o bobl ar ôl. Bydd darpariaeth anwadal y gorffennol yn cael ei disodli gan rwydwaith cenedlaethol sy'n gweithio i bawb. Bydd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol yn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy sicrhau bod mwy o bobl – yn enwedig y rhai sy'n gadael gofal – yn cael mynediad at y tai sefydlog o ansawdd da y maen nhw'n eu haeddu. Ac mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn gosod llwybr clir tuag at ein nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg, â'i wreiddiau mewn cynnig cyfleoedd a mynediad ac ennyn balchder yn ein hiaith.

Cyfle i fwrw golwg yw'r adroddiad hwn. Ond, yn fwy na hynny, mae'r adroddiad hwn yn ein hatgoffa o'r cyfrifoldeb sydd ar ein hysgwyddau. Rhaid i'r camau y byddwn yn eu cymryd heddiw wneud mwy nag ymateb i faterion y dydd yn unig, rhaid iddynt hefyd lunio gwell yfory. Dyna fydd yr etifeddiaeth a adawn ar ein holau – rydym yn benderfynol o hynny.

Dyna ein cyfrifoldeb i'r genhedlaeth nesaf. A dyna'r safon y byddaf i'n ei disgwyl gennyf fi fy hun fel eich Prif Weinidog chi.

.

# Cyflwyniad

**Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol tymor y Senedd hon. Mae'n nodi'r cynnydd a wnaed gennym tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan fodloni'r ddyletswydd yn adran 12 o'r Ddeddf honno.**

## Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro ar sail y 10 amcan llesiant, gan dynnu sylw at y cyflawniadau allweddol a'r camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r amcanion hyn. I ategu hyn ymhellach, darperir hefyd ddiweddariad manwl (yr atodiad) ar bob un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r camau a gymerwyd i gyflawni ein hamcanion llesiant.

Yn ystod 2024/2025, daeth y Cytundeb Cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i ben. Er hynny, mae'r ymrwymiadau a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn parhau i fod ar waith ac mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ymdrechion y Llywodraeth i gyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau hynny.

### Dyma'r 10 amcan llesiant:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell byth i fyw a gweithio ynddynt.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

# 1. Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel

Ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw asgwrn cefn Cymru iach, ffyniannus. Yn ystod Tymor y Senedd hon (2021-2026), nodwyd 75 mlynedd o'r GIG, gan ddathlu ymroddiad, agwedd dosturiol ac ymrwymiad ei staff o ddydd i ddydd.

Rydym yn gwybod nad yw'r pwysau drosodd. Mae effaith barhaus y pandemig a chwyddiant sy'n cynyddu yn dal i fod yn andwyol. Dyna pam, ym mis Rhagfyr 2024, y gwnaethom gamu i mewn gyda £600 miliwn yn ychwanegol i helpu i gefnogi ein GIG drwy'r heriau hyn sy'n parhau. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cefnogi ein hymdrechion i leihau amseroedd aros gyda phwyslais penodol ar yr arosiadau hynny dros 104 wythnos. Ym mis Mawrth 2025, mae amseroedd aros hir wedi lleihau 59% ers mis Mawrth 2024 ac maen nhw 88% yn is na'r brig a brofwyd ar ôl y pandemig.

Yn sgil cyflwyno Safonau Mynediad Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn 2022, mae wedi dod yn haws i bobl gael y gofal sydd ei angen arnynt gan eu meddyg teulu. Sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi y tro cyntaf iddynt gysylltu â'u practis yw'r nod yn syml. Rydym nawr yn adolygu effaith yr ymrwymiad hwnnw – gan gynnwys sut mae'n helpu i fynd i'r afael â'r dagfa am 8am – i wneud yn siŵr bod practisau'n bodloni'r safonau a bod pobl yn teimlo'r gwahaniaeth. Mae ein rhwydwaith o fferyllfeydd cymunedol hefyd yn chwarae mwy o rôl nag erioed.

Mae'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin bellach ar gael yn 99% o'r fferyllfeydd ledled Cymru, gan gynnig cyngor a thriniaeth gyfrinachol am ddim ar gyfer 28 o gyflyrau cyffredin fel llwnc tost/dolur gwddf a heintiau'r llwybr wrinol heb fod angen apwyntiad. Yn 2024 yn unig, defnyddiodd mwy na 400,000 o bobl y gwasanaeth hwn.

Mae tua 2,520 o fferyllfeydd – tua thraean o'r holl fferyllfeydd yng Nghymru – hefyd yn darparu Gwasanaeth Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol. Mae hynny'n golygu y gall hyd yn oed rhagor o bobl gael mynediad at driniaeth ar gyfer cyflyrau fel heintiau ar y croen neu yn y glust, meigryn a llid y sinysau, yn syth gan eu fferyllydd lleol. Felly, mae pobl yn cael gwell mynediad, yn agosach at eu cartref.

Ym mis Chwefror 2025, lansiwyd y Porth Mynediad Deintyddol newydd. Roedd hwn yn gam mawr ymlaen i wneud gofal deintyddol y GIG yn decach ac i sicrhau ei bod yn haws i gael gafael arno. Yn hytrach na gorfod galw amryw o bractisau, gall pobl nawr gofrestru mewn un man. Mae'n system sydd wedi'i chynllunio i leddfu'r straen, gwella mynediad, a rhoi darlun llawer cliriach inni ymhle mae'r mwyaf o alw a'r mwyaf o angen am wasanaethau – a hynny ledled Cymru gyfan.

Ym mis Mai 2025, cafodd Ap GIG Cymru ei ail-lansio, gan ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws i bobl reoli eu hiechyd. Gall defnyddwyr nawr archebu presgripsiynau rheolaidd, gwirio eu llinell amser iechyd a chael mynediad at gyngor dibynadwy, i gyd mewn un man.

Rydym hefyd wedi cyflwyno'r gwasanaeth newydd, Gwasanaeth Dilysu Hunaniaeth Cymru, fel y gall hyd yn oed y rhai nad ydynt yn gallu defnyddio swyddogaeth NHS Login gael mynediad i'r Ap drwy wirhau eu hunaniaeth yn eu meddygfa. Ond megis dechrau yw hyn. Mae rhagor o ddiweddariadau ar y ffordd yn 2025-26 i ychwanegu hyd yn oed rhagor o nodweddion a swyddogaethau, gan helpu pobl i gymryd rheolaeth o'u hiechyd, lle bynnag y bônt.

I helpu i ddiogelu dyfodol ein GIG ac i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ers amser maith o ran hyfforddi a chadw meddygon, rydym wedi gwireddu ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd. Dechreuodd yr 80 o fyfyrwyr cyntaf ar eu hastudiaethau yn hydref 2024, gan nodi carreg filltir bwysig i addysg feddygol a'r cymunedau a fydd yn elwa yn y blynyddoedd sydd i ddod.

# 2. Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed

Mae rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant wedi bod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Cymru hon bob amser. Mae hynny'n golygu sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu cynllunio gyda phobl ifanc a theuluoedd yn ganolog iddynt. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein Cynnig Gofal Plant i blant 3 a 4 oed ac rydym yn ehangu ein darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed y tu hwnt i ardaloedd traddodiadol Dechrau'n Deg. Bydd cam 3 o gyflwyno'r ddarpariaeth yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel ledled Cymru. Yn 2024-25, darparwyd £5.5 miliwn drwy ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar i gefnogi gwelliannau i 18 o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg – i wella cyfleusterau, ehangu capasiti a chryfhau ein hymrwymiad i Cymraeg 2050 drwy roi cyfle i fwy o blant ddechrau ar eu taith ddysgu drwy'r Gymraeg.

I gefnogi'r sector gofal plant ymhellach, rydym wedi cynyddu'r gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth. Yn ogystal â hynny, rydym wedi gwneud ein rhyddhad ardrethi busnes o 100% yn barhaol ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig. O ganlyniad, rydym yn rhoi mwy o sefydlogrwydd a thegwch i'r sector.

Rydym hefyd yn cydnabod y rôl hanfodol mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn ei chwarae. Dyna pam rydym wedi parhau i gefnogi cyflogwyr gofal cymdeithasol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff ac wedi sefydlu Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol i ddod â'r llywodraeth, cyflogwyr ac undebau llafur ynghyd i wella ffyrdd o weithio i staff yn y sector.

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) – sy'n garreg filltir nodedig – yn gyfraith. Golyga hyn mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddeddfu i ddileu elw preifat o ofal preswyl a maeth i blant. Mae'r cam beiddgar hwn yn rhoi lles plant o flaen elw ac yn cryfhau ein hethos o wasanaethu'r cyhoedd. Mae hyn hefyd yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG drwy ganiatáu iddynt ofyn am daliadau uniongyrchol a theilwra gwasanaethau yn unol â'u hanghenion.

Rydym wedi cymryd camau sylweddol i gefnogi a gwella iechyd meddwl. Ym mis Ebrill 2025, lansiwyd dwy strategaeth uchelgeisiol 10 mlynedd – y naill yn canolbwyntio ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r llall ar Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gosod gweledigaeth ar gyfer mwy o wasanaethau mynediad agored, fel y gall pobl gael help pan fo'i angen arnynt.

Rydym hefyd wedi parhau i roi cyllid ar gyfer gweithredu gwasanaeth GIG 111, Pwyso 2, sy'n cefnogi mynediad at gymorth iechyd meddwl brys ledled Cymru. Erbyn mis Ebrill 2025, roedd eisoes wedi derbyn mwy na 165,000 o alwadau ers ei lansio ym mis Mehefin 2023 sy'n dangos pa mor hanfodol a gwerthfawr yw'r cymorth hwn erbyn hyn.

Mae cymorth i ofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Ers ei lansio yn 2022, mae ein Cynllun Seibiannau Byr wedi hen ragori ar ei darged – gan ddarparu mwy na 30,000 o seibiannau sydd wirioneddol eu hangen i ofalwyr erbyn mis Mawrth 2025. Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o ofalwyr yn wynebu pwysau ariannol mawr. Mae ein Cronfa Cymorth i Ofalwyr yn parhau i ddarparu cymorth ariannol brys i helpu gofalwyr di-dâl ar incwm isel i dalu costau hanfodol.

Drwy amrediad o raglenni, rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at ein gweledigaeth o ofal iechyd a chymdeithasol di-dor, cydgysylltiedig – gofal sy'n cael ei ddarparu'n agosach at y cartref ac sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl. Mae mwy na 600,000 o bobl ledled Cymru nawr yn elwa ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol bob blwyddyn, gan eu helpu i fyw'n dda gartref gyda'r cymorth cywir. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio ar y cyd â dinasyddion, ac mae adborth gan dros 90,000 o unigolion yn dangos ei bod yn helpu i atal cynnydd mewn angen. Mae mwy na 95,000 o bobl hefyd wedi dweud wrthym ei bod wedi gwella eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd.

# 3. Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol

Mae ein Cenhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach yn amlinellu cyfeiriad cenedlaethol clir ar gyfer adeiladu Cymru decach, wyrddach a mwy gwydn. Mae'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth sef pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd; platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant; partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd; a buddsoddi ar gyfer twf.

Mae ein Gwarant Pobl Ifanc yn ymwneud ag agor drysau i bobl ifanc 16-24 oed, boed hynny drwy addysg, hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddechrau eu busnes eu hunain. Ers ei lansio yn 2021, mae dros 57,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Ac mae'n cyflawni canlyniadau gwirioneddol. Mae mwy na 8,500 wedi llwyddo i gael gwaith a mwy na 800 wedi dechrau eu busnes eu hunain. Bellach, mae'r gyfradd diweithdra ymysg ieuenctid yng Nghymru yn is na chyfradd y DU ac mae ein pobl ifanc hefyd yn chwifio'r faner yn fyd-eang ar ein rhan. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, llwyddon nhw yn ystod Rowndiau Terfynol Cenedlaethol y DU o gystadlaethau WorldSkills i ddod â 70 o fedalau yn ôl adref, gan ddangos cymaint o dalent a phenderfyniad sydd gennym yma yng Nghymru.

Rydym yn gwybod bod prentisiaethau yn llwybr sydd wedi'i brofi ar gyfer ennill sgiliau, elwa ar gyfleoedd a phrofi llwyddiant – i bobl o bob oed a chefndir. Hyd yma, rydym wedi cynorthwyo bron i 74,000 o brentisiaethau ar draws 23 o sectorau, gan helpu pobl i adeiladu eu dyfodol ac annog y sgiliau sydd eu hangen ar ein heconomi i ffynnu. Mae ein rhaglenni sgiliau a chymorth busnes wedi chwarae rhan hanfodol o ran helpu gweithwyr a busnesau y mae diwedd y cynhyrchu dur drwy ffwrneisiau chwyth ym Mhort Talbot wedi effeithio arnynt. Trwy ein cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol, mae 700 o weithwyr Tata a'i gadwyn gyflenwi wedi elwa ar hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn, gan roi cyfle iddynt ennill sgiliau newydd, ailhyfforddi a pharatoi at y dyfodol yn hyderus.

Eleni, rydym wedi cymryd camau mawr i sicrhau dyfodol ynni glân a gwyrdd i Gymru. Ym mis Gorffennaf 2024, lansiwyd Trydan Gwyrdd Cymru sef ein datblygwr ynni adnewyddadwy newydd sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd ac sydd wedi'i sefydlu i sicrhau bod y cyfoeth a gaiff ei greu gan ein hadnoddau naturiol yn aros yng Nghymru ac o fudd i'n cymunedau.

Lansiwyd hefyd *Ynni Cymru*, rhaglen arloesol a ddarperir gan gymorth cyllid gwerth £10 miliwn i gynorthwyo 32 o brosiectau ynni glân arloesol lleol a chymunedol ledled y wlad, gan helpu i ddatblygu system ynni decach o'r gwaelod i fyny.

Ym mis Hydref 2024, gwnaethom gymryd cyfran ecwiti gwerth £8 miliwn yng nghynllun Morlais ar Ynys Môn. Mae posibilrwydd y gall y cynllun gynhyrchu ynni ar gyfer hyd at 180,000 o gartrefi a dyma fydd y prosiect ynni llanw mwyaf i gael cydsyniad yn Ewrop a'r cyntaf o'i fath yn y byd. Gwnaethom hefyd gwblhau buddsoddiad ecwiti gwerth £2 miliwn yn y cwmni ynni llanw Inyanga Marine Energy Group, yn rhan o brosiect arddangos (hefyd ym Morlais) gwerth £3.7 miliwn i roi eu harloesi o ran tyrbinau ffrwd lanw ar brawf mewn amodau go iawn. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn yr hydref i'w defnyddio yn y môr.

Mae Cymru yn gartref i rai o ddiwydiannau amlycaf yn y byd sy'n helpu i lywio'r dyfodol. Gwelwyd hwb mawr arall eleni a hynny i'n clwstwr sy'n ehangu o led-ddargludyddion cyfansawdd wrth i Vishay Intertechnology fuddsoddi cyllid gwerth £51 miliwn yn Newport Wafer Fab, buddsoddiad a sicrhawyd gyda chymorth cyllid gwerth £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Gwnaeth y cyllid cychwynnol hwnnw helpu i osod y sylfaen ar gyfer ymrwymiad pellach gwerth £250 miliwn gan y cwmni, gan atgyfnerthu safle Cymru yn wlad sydd ar flaen y gad o ran gweithgynhyrchu a thechnoleg uwch.

# 4. Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl

Rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at gyflawni economi sero net ac rydym yn croesawu'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer diwydiannau newydd, swyddi medrus a dyfodol mwy cynaliadwy i Gymru.

Mae ein blaenoriaeth Gwell Trafnidiaeth yn sail i'r cyfleoedd hyn. Yn sgil ein buddsoddiad gwerth £800 miliwn mewn rheilffyrdd, caiff y mwyafrif o siwrneiau bellach eu gwneud ar drenau newydd, gan sicrhau gwasanaethau cyflymach, mwy cyson a mwy dibynadwy. Mae'r buddsoddiad hwn yn trawsnewid profiad teithwyr ac yn adeiladu rhwydwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Mawrth 2025, cyflwynwyd deddfwriaeth nodedig i drawsnewid teithio ar fysiau yng Nghymru. Mae Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn dod â bysiau yn ôl o dan reolaeth gyhoeddus, gan roi'r adnoddau inni ddylunio rhwydwaith mwy effeithlon, dibynadwy ac integredig sy'n rhoi anghenion cymunedau yn gyntaf, gan hefyd ategu ein nodau o ran datgarboneiddio.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth sy'n cysylltu pobl, yn cefnogi cymunedau ac yn cryfhau ein heconomi.

Metro De Cymru yw un o'r prosiectau mwyaf a'r mwyaf trawsnewidiol rydym wedi'i gyflawni erioed, ac rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol tuag at ei gwblhau yn ystod tymor y Senedd hon. Yn sgil buddsoddiad gwerth dros £1 biliwn, rydym wedi cyflwyno gwasanaethau mwy cyson o Gaerffili a Phontypridd i Gaerdydd a Bro Morgannwg, gan sicrhau opsiynau gwell o ran siwrneiau i bobl a chymunedau. Yn rhan o'n buddsoddiad gwerth £800 miliwn mewn trenau newydd, rydym hefyd wedi llwyddo i ailfywiogi rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr, gan ganiatáu i'r trenau trydan cyntaf erioed fynd arnynt.

Rydym yr un mor uchelgeisiol yn y Gogledd. Mae ein cynllun *Rhwydwaith Gogledd Cymru* yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyson ar ffurf metro ar hyd prif reilffordd y Gogledd a rhwng Wrecsam a Lerpwl a fydd yn helpu i gysylltu cymunedau'n well a thyfu'r economi yn y blynyddoedd i ddod.

Ym mis Mai, agorwyd cynllun uwchraddio ffordd yr A40 Llanddewi Felffre yn Sir Benfro a hynny yn sgil buddsoddiad gwerth £60 miliwn ar y cyd â'r UE. Mae'r prosiect pwysig hwn yn gwella cysylltiadau i bobl leol ac ymwelwyr gan hefyd gynorthwyo mwy na 100 o fusnesau yng Nghymru drwy ei gadwyn gyflenwi.

Rydym hefyd wedi buddsoddi £1.4 biliwn i gwblhau'r gwaith o uwchraddio'r A465 rhwng Hirwaun a Dowlais. Pan fydd yn agor yr haf hwn, bydd pobl yn gallu elwa ar 17.7km o ffordd ddeuol newydd a dros 14km o lwybrau teithio llesol. Mae'r prosiect eisoes wedi sicrhau mwy na 2,000 o swyddi a buddsoddiad gwerth dros £200 miliwn mewn cadwyni cyflenwi lleol. Bydd hyn yn helpu i leddfu'r pwysau ar yr M4 drwy gynnig llwybr amgen strategol rhwng de Cymru a chanolbarth a gogledd Lloegr.

O ran ein cymunedau gwledig, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector ffermio i ddatblygu'r *Cynllun Ffermio Cynaliadwy*. Mae'r dull gweithredu newydd hwn ar gyfer darparu cymorth amaethyddol yn cydnabod cyfraniad hollbwysig busnesau ffermio cynaliadwy yng Nghymru, yn economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Bydd y cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi yr haf hwn a bydd yn dod i rym ym mis Ionawr 2026.

# 5. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn

Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn parhau i fod wrth wraidd ein hagenda ddeddfwriaethol.

Ym mis Mai 2025, cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd cyflenwi weips gwlyb untro sy'n cynnwys plastig. Mae hwn yn gam hanfodol i leihau llygredd plastigau a microblastigau sy'n parhau i niweidio ein hafonydd, ein moroedd a'n hamgylchedd naturiol.

Rydym hefyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â gwaddol amgylcheddol ein gorffennol diwydiannol. Mae diogelwch tomenni glo yn flaenoriaeth genedlaethol ac rydym yn benderfynol o amddiffyn cymunedau rhag unrhyw risg yn y dyfodol. Ym mis Rhagfyr 2024, gosodwyd Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) gerbron y Senedd, gan lywio'r ffordd ar gyfer prosesau rheoleiddio cryfach a chliriach. Ers dechrau tymor y Senedd hon, rydym wedi buddsoddi dros £100 miliwn mewn diogelwch tomenni glo, gan gynnwys swm neilltuol o £34 miliwn eleni i helpu awdurdodau lleol i gynnal gwaith diogelwch hanfodol ar 130 o safleoedd ledled Cymru.

Mae Cymru'n parhau i arwain y ffordd o ran ailgylchu. Bellach, ni yw'r ail wlad orau yn y byd am ailgylchu trefol – cyflawniad anhygoel a gaiff ei ysgogi gan gymunedau ledled y wlad.

Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw a'n symud ni'n agosach at gyflawni'n nod o fod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050, cyflwynwyd ein cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio ym mis Ionawr 2025. Mae'r cam pwysig hwn yn lleihau ein dibyniaeth ar ddeunyddiau crai ac yn helpu'r gwaith y mae Cymru yn ei wneud i drawsnewid i economi gylchol a charbon sero net.

Rydym hefyd wedi parhau i ehangu ein rhwydwaith o hybiau atgyweirio ac ailddefnyddio, gan helpu pobl i barhau i ddefnyddio eitemau am gyfnod hirach. Bellach, mae gan dros 80% o awdurdodau lleol Cymru hwb yn eu hardaloedd sy'n golygu bod egwyddorion economi gylchol yn dod yn rhan o fywyd bob dydd, yn ogystal â chreu sgiliau a swyddi gwyrdd newydd ar hyd y daith.

Mae diogelu a gwarchod ein bioamrywiaeth a chryfhau cysylltiad pobl â natur yn rhan hollbwysig o'r ffordd rydym yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn meithrin Cymru iachach a mwy gwydn.

Mae ein Coedwig Genedlaethol i Gymru bellach yn rhychwantu dros 130 o safleoedd, gan greu coridorau a chynefinoedd gwyrdd ledled y wlad. Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi sicrhau dros 4,000 o fannau gwyrdd newydd drwy'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gan gynnwys 790 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol, 670 o berllannau cymunedol ac 80 o erddi synhwyraidd therapiwtig, gan ddod â natur yn agosach at ble y mae pobl yn byw ac yn gweithio.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran adfer mawndiroedd gwerthfawr Cymru. Mae ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd eisoes wedi adfer yr hyn sy'n cyfateb i 3,000 o gaeau rygbi, gan gyflawni'n targed flwyddyn lawn yn gynt na'r disgwyl. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i ddiogelu 1.6 miliwn o dunelli o garbon a sicrhau lleihad o 8,000 o dunelli mewn allyriadau, sy'n cyfateb i allyriadau 5,700 o geir.

O ran yr amgylchedd, rydym hefyd yn cyflawni newid hirdymor a thrawsnewidiol. Ym mis Mehefin 2025, cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth). Dyma garreg filltir bwysig ar gyfer cryfhau'r ffordd rydym yn diogelu ac yn gwella ein byd naturiol. Bydd y Bil yn sefydlu fframwaith cryf ac annibynnol ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys creu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol newydd. Bydd y corff hwn yn darparu goruchwyliaeth strategol, yn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ac yn sicrhau bod ein cyfreithiau amgylcheddol yn effeithiol, yn atebol ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn oll yn ategu ein huchelgais i gyflawni sefyllfa sero net erbyn 2050 a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

# 6. Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi

Mae dyfodol Cymru yn dibynnu ar lwyddiant ein plant a'n pobl ifanc. Dyna pam ein bod yn datblygu system addysg sy'n canolbwyntio ar eu llesiant, eu huchelgeisiau a'u potensial, gan roi cyfle i bob dysgwr ffynnu.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Ym mis Medi 2024, dechreuodd disgyblion Blwyddyn 9 ddysgu o dan y cwricwlwm newydd, ac erbyn mis Medi 2026, bydd pob grŵp blwyddyn wedi'i gynnwys. Nod y Cwricwlwm yw codi disgwyliadau ar gyfer pob plentyn, gan hefyd roi'r hyblygrwydd i ysgolion i helpu eu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Rydym hefyd yn buddsoddi yn y cymorth hanfodol sydd ynghlwm wrth yr ystafell ddosbarth. Mae ein Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn helpu i fynd i'r afael ag achosion o absenoldeb parhaus a gwella presenoldeb, sydd ar gyfartaledd yn 90.9% y flwyddyn academaidd hon hyd yma, o gymharu â 90.1% yn ystod yr un cyfnod yn 2023-24.

Er mwyn cynorthwyo sgiliau craidd, rydym wedi ehangu'n sylweddol ein buddsoddiad ym maes llythrennedd a rhifedd. Y llynedd, dyrannwyd cyllid gwerth £1.1 miliwn i gryfhau gallu lleol a rhaglenni cymorth cenedlaethol. Eleni, rydym wedi rhoi rhagor o gymorth gan ddyrannu £10 miliwn yn ychwanegol i ysgolion, gan gynnwys £2.5 miliwn yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Ym mis Mehefin 2024, cyhoeddom gyllid gwerth dros £20 miliwn mewn grantiau dros gyfnod o dair blynedd i ddarparu cymorth cyson ym maes llythrennedd a rhifedd ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi cyflawni ein hymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, sy'n golygu bod dros 44 miliwn o brydau cinio ychwanegol eisoes wedi'u gweini. Mae pryd bwyd iach a maethlon amser cinio yn annog gwell dysgu ac arferion iachach ac yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd yn yr ysgol, gan leddfu'r pwysau ar gyllidebau teuluoedd.

Mae Cymru'n parhau i roi'r gyfradd wythnosol fwyaf hael o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn y DU. Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, cynyddwyd y gyfradd wythnosol o £30 i £40 gan roi dros £17 miliwn yn uniongyrchol ym mhocedi mwy na 20,000 o bobl ifanc. O 2025–26 ymlaen, rydym hefyd yn codi trothwyon incwm aelwydydd, gan alluogi 3,500 o ddysgwyr eraill i wneud cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

Rydym hefyd yn parhau i helpu dysgwyr sy'n oedolion. O flwyddyn academaidd 2025–26 ymlaen, rydym yn cynyddu Cynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach gan godi'r uchafswm grant amser llawn o £1,500 i £1,919, a'r grant rhan-amser o £750 i £959. I sicrhau bod y cynllun hwn yn annog dysgu gydol oes a sicrhau bod y rhai dros 19 oed yn cymryd rhan, rydym wedi comisiynu adolygiad annibynnol.

# 7. Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru decach yn golygu sicrhau bod pob plentyn a phob teulu yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo – yn arbennig y rhai sy'n wynebu'r heriau mwyaf. Dyna pam ein bod wedi parhau i fuddsoddi mewn mesurau sy'n helpu aelwydydd ledled Cymru i leddfu'r pwysau ariannol maent yn ei wynebu, gwneud y mwyaf o'u hincwm a'u helpu i gadw mwy o arian yn eu pocedi. Rhwng 2022 a 2026, bydd buddsoddiad gwerth bron i £7 biliwn wedi'i wneud. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys presgripsiynau am ddim, gweithredu ar ddiffyg diogeledd bwyd, cyllid ychwanegol i'r Banc Tanwydd i helpu'r rhai y mae tlodi tanwydd yn effeithio arnynt, ac ymgyrchoedd parhaus fel 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' ochr yn ochr â'n Cronfa Gynghori Sengl i helpu pobl i fanteisio ar y budd-daliadau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddynt. O'r adeg y cyflwynwyd y Gronfa Gynghori Sengl yn 2020 hyd at fis Mawrth 2025, mae'r Gronfa honno a'r ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' wedi helpu dros 380,000 o bobl i hawlio incwm ychwanegol gwerth £208.9 miliwn ac mae dyledion gwerth £66.3 miliwn wedi'u dileu.

Er mwyn creu Cymru lle y mae pawb yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu croesawu, rydym wedi parhau â'n gwaith i fynd i'r afael â chasineb a gwahaniaethu. Mae ein hymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, a ddatblygwyd ar y cyd â phobl sydd â phrofiad bywyd o droseddau casineb, wedi cyrraedd cynulleidfaoedd drwy gyfrwng radio, cyfryngau digidol a chyfryngau awyr agored. Gan weithio ochr yn ochr â'r heddlu, rydym wedi targedu ein hymgyrch ac wedi hyrwyddo'r cymorth hollbwysig sydd ar gael gan Ganolfan Cymorth Casineb Cymru.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i ddiweddaru, sy'n ailddatgan ein hymrwymiad i ddod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Gwnaethom hefyd lansio Cronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol i gynorthwyo prosiectau sy'n dathlu ac yn grymuso cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru, gan greu newid hirdymor yn y ffordd y mae ein sectorau diwylliant a threftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth ein cenedl. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod 2022-25, mae ein grant diwylliant Cymru Wrth-hiliol ar gyfer Sefydliadau Llawr Gwlad wedi rhoi cymorth ariannol i dros 50 o grwpiau, gyda mwy na 90% ohonynt o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Rydym yn parhau i sefyll yn gadarn gyda'n cymunedau LHDTC+. Ym mis Mai 2024, lansiwyd gwasanaeth cymorth wyneb yn wyneb, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, i ddioddefwyr a goroeswyr arferion trosi. Dyma gam arall i sicrhau bod Cymru yn wlad wirioneddol ddiogel a chynhwysol i bawb. Rydym hefyd wedi parhau i ariannu digwyddiadau Balchder ar lawr gwlad ledled Cymru, gan eu helpu i ddatblygu, cyrraedd mwy o bobl, arddangos talent Cymru a chreu mannau croesawgar wedi'u llywio gan bobl LHDTC+ a'u cynghreiriaid.

Ym mis Mai 2025, lansiwyd ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft, a ddatblygwyd yn dilyn gwaith sylweddol gan y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Mae'r cynllun, y cyfrannodd dros 350 o randdeiliaid ato, yn nodi camau gweithredu ymarferol i ddileu rhwystrau a gwella bywydau pobl anabl ledled Cymru.

# 8. Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac mae'n ganolog i'n hunaniaeth genedlaethol, ein diwylliant a'n dyfodol. Rydym wedi ymrwymo'n llawn o hyd i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu canran y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Er mwyn helpu i wireddu'r uchelgeisiau hynny, cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ym mis Gorffennaf 2024. Nod y ddeddfwriaeth, a gafodd ei phasio gan y Senedd ym mis Mai 2025, yw sicrhau bod pob disgybl yn gadael addysg orfodol yn siaradwr Cymraeg hyderus ac annibynnol, gan roi'r iaith wrth galon bywyd bob dydd yng Nghymru.

I helpu cymunedau Cymraeg eu hiaith, lansiwyd Perthyn, y cynllun grantiau bach gan helpu sefydliadau ar lawr gwlad i ddod â syniadau lleol i fodolaeth. Ers 2022, mae dros 60 o brosiectau wedi cael cymorth. Mae llawer ohonynt wedi datblygu'n fentrau cymdeithasol ffyniannus a'r Gymraeg yn rhan annatod ohonynt.

Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynwyd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) gan roi'r opsiwn i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll fach ar ymwelwyr. Mae'r pŵer newydd hwn yn caniatáu i gynghorau ailfuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol yn uniongyrchol, gan helpu cymunedau, busnesau a thwristiaid fel ei gilydd. Mae'r Bil hwn, a basiwyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2025, yn cyflwyno cofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety, gan gynnig darlun cliriach o'r sector a gwella prosesau goruchwylio a chynllunio.

Mae Cymru yn ffynnu pan fo diwylliant yn gynhwysol, yn weladwy ac yn cael ei werthfawrogi. Ym mis Mai 2025, lansiwyd Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant sy'n nodi ein blaenoriaethau newydd ar gyfer diwylliant, a ddatblygwyd gyda'r sector ac ar ei gyfer – i sicrhau bod cyfleoedd yn y celfyddydau yn agored i bawb, waeth beth fo'ch cefndir neu'ch cod post. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adeiladu ar lwyddiannau gan gynnwys sefydlu Celf, yr oriel gyfoes genedlaethol i Gymru, cwblhau'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd a datblygu ein hamgueddfa bêl-droed newydd yn Wrecsam.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a mynediad ym maes chwaraeon. Eleni, lansiwyd y Gronfa Gymorth i Bartneriaid Ewro 2025, sy'n werth £1 miliwn, er mwyn dathlu'r ffaith bod tîm cenedlaethol menywod Cymru wedi creu hanes wrth ennill eu lle ym mhencampwriaeth EURO Menywod UEFA yn y Swistir.

Mae'r gronfa yn cynorthwyo 16 o brosiectau sy'n ceisio hyrwyddo chwaraeon menywod ac annog mwy o ferched a menywod i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Trwy Digwyddiadau Cymru, cefnogwyd 35 o ddigwyddiadau mawr yn ystod 2024, a chan ddefnyddio cyllid gwerth bron i £4 miliwn, cynhyrchwyd dros £40 miliwn i economi Cymru. O ras feicio Tour of Britain i fenywod a Chwpan y Byd Cleddyfa Cadair Olwyn, i ŵyl Hijinx Unity a Gŵyl gyntaf Dinas Gerdd Caerdydd, mae ein rhaglen ddigwyddiadau yn adlewyrchu cyfoeth ac amrywiaeth Cymru.

Llwyddodd y digwyddiadau hyn i ddenu bron i 170,000 o ymwelwyr ychwanegol i Gymru y llynedd, yn ogystal â chynnal dros 900 o swyddi yn y sector twristiaeth a chreu tua 4,000 o gyfleoedd profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli. Llwyddwyd hefyd i arddangos bron i 1,000 o artistiaid perfformio Cymreig neu o Gymru, gan helpu i dyfu ein heconomi greadigol a'n henw da diwylliannol ar lwyfan y byd.

# 9. Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt

Mae pawb yn haeddu cartref diogel, cynnes a fforddiadwy, a dyna'n union rydym yn anelu at ei gyflawni.

Rydym yn gwybod mai buddsoddi mewn tai addas yw un o'r adnoddau mwyaf pwerus sydd gennym i leihau tlodi, gwella iechyd a meithrin cymunedau cryfach. Dyna'r rheswm felly dros gyflwyno Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) sy'n canolbwyntio ar atal, helpu pobl i gael cartrefi hirdymor ac uno gwasanaethau i ddarparu cymorth priodol, yn hytrach na datrysiadau dros dro.

Fis Hydref diwethaf, cyhoeddom Bapur Gwyn ar Dai Digonol, Rhenti Teg a Fforddiadwyedd. Roedd y neges gan bobl yn glir – mae angen system dai sy'n gweithio i denantiaid ac nid dim ond ar gyfer landlordiaid yn unig. Rydym yn defnyddio'r ymatebion hynny i lywio ffordd flaengar ymlaen.

Rydym yn ategu ein huchelgais â chamau gweithredu. Yn ystod tair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon, rydym wedi sicrhau bron i 9,000 yn fwy o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol – dyma rai o'r lefelau uchaf ers 2008.

Rydym wedi adfer dros 580 o gartrefi gwag a fyddai fel arall wedi'u colli. Rydym hefyd wedi buddsoddi cyllid gwerth £90 miliwn ar ffurf benthyciadau i helpu cymdeithasau tai i adeiladu cartrefi a'u gwella ledled Cymru. Nid dim ond brics a mortar sydd o dan sylw – mae hefyd yn ymwneud â dod â bywyd yn ôl i ganol ein trefi.

Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn gwneud yr union beth hwnnw, sef helpu cymunedau ledled Cymru i droi adeiladau gwag nad ydynt yn cael eu defnyddio yn gartrefi, yn fusnesau ac yn fannau cymunedol. Gan weithio law yn llaw ag awdurdodau lleol, rydym yn adfer eiddo masnachol gwag, yn aml ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys tai y mae mawr angen amdanynt. Yn ystod 2024-25, darparwyd cyllid ychwanegol gwerth £31.5 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer cynnal prosiectau adfywio, gan ddod â chyfanswm ein buddsoddiad blynyddol yn y rhaglen Trawsnewid Trefi i £70 miliwn. Mae hynny'n hwb gwirioneddol i economïau lleol ac yn arwydd clir o'r gwaith adnewyddu mewn trefi ledled Cymru.

Trwy ein cynllun Cartrefi Clyd Nyth, rydym hefyd yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng costau byw, gan sicrhau bod cartrefi yn gynhesach, yn rhatach i'w rhedeg ac yn well i'r blaned.

Ar ôl cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya, mae'r data yn galonogol. Mae ystadegau diweddaraf yr heddlu yn dangos bod nifer y gwrthdrawiadau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 ar y lefel isaf ar gyfer y chwarter hwnnw ers y pandemig. Yn ystod 2024, roedd tua 80 yn llai o bobl, o gymharu â 2023, wedi'u lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd sydd â therfyn cyflymder o 20mya neu 30mya. Rydym hefyd wedi gwrando ac wedi grymuso awdurdodau lleol i wneud newidiadau pan fo'n ddiogel gwneud hynny.

# 10. Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd

Er mwyn i ddemocratiaeth ffynnu, rydym o'r farn bod angen i bobl deimlo bod ganddynt lais yn y broses o wneud penderfyniadau.

Dyna pam ein bod yn gweithredu ar argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Ym mis Ebrill 2025, sefydlwyd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth i wneud gwleidyddiaeth yn fwy hygyrch ac archwilio ffyrdd newydd a chyfoes o sicrhau bod pobl yn ymwneud yn fwy â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Rydym hefyd yn cyflawni diwygiadau sylweddol i ddemocratiaeth. Ym mis Mehefin 2024, cafodd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) y Cydsyniad Brenhinol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer y newidiadau mwyaf i ddemocratiaeth Cymru ers datganoli, gan gynnwys ehangu'r Senedd i 96 o Aelodau o fis Mai 2026 ymlaen. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd canllawiau newydd ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru, gan unwaith eto arwain y DU ar gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth mewn modd cynhwysol.

Ochr yn ochr â diwygio democrataidd, rydym yn rhoi dull gweithredu modern ar waith o ran cyllid cyhoeddus. Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol ei phasio gan y Senedd, y cyntaf ers datganoli, ac mae'n rhan allweddol o'n hagenda i ddiwygio trethi lleol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud y dreth gyngor yn decach ac yn rhoi inni'r adnoddau i addasu trethi lleol i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau Cymru wrth iddynt newid.

Ac wrth inni foderneiddio gartref, rydym hefyd yn edrych tuag allan, gan helpu busnesau Cymru i dyfu a ffynnu yn fyd-eang.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio yn parhau i gyflawni. Ers 2021, mae busnesau Cymru wedi sicrhau gwerthiannau allforio newydd gwerth bron i £320 miliwn, ac wedi nodi cyfleoedd allforio gwerth bron i £900 miliwn, a hynny yn sgil cymorth wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cryfhau cysylltiadau byd-eang, lansiwyd ymgyrch Cymru a Japan 2025, sef ymgyrch blwyddyn o hyd i feithrin cysylltiadau economaidd, diwylliannol ac addysgol rhwng y ddwy genedl. Yn rhan o hyn, buddsoddwyd cyllid gwerth £150,000 yng Nghronfa Ddiwylliant Cymru–Japan i gynorthwyo cydweithrediadau artistig newydd. Bydd Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli gyda balchder yn Expo y Byd 2025 yn Osaka.

Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant ymgyrch Cymru yn India 2024 ac ymgyrchoedd rhyngwladol blaenorol yn Ffrainc, Canada a'r Almaen, pob un ohonynt wedi helpu i godi proffil Cymru a chryfhau cysylltiadau â phartneriaid byd-eang allweddol.

Wrth ddod â blwyddyn o ymgysylltu byd-eang i ben, byddwn yn cynnal Uwchgynhadledd Buddsoddi Rhyngwladol fawr ym mis Rhagfyr 2025, a fydd yn arddangos Cymru fel cenedl hyderus ac uchelgeisiol a chyrchfan mewnfuddsoddi o'r radd flaenaf.

# Adolygu'r Amcanion Llesiant

Mae ein Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd yn 2021, wedi'i threfnu o amgylch ein 10 amcan llesiant. Mae'r rhain wedi'u gosod gan Weinidogion Cymru i gyflawni'r ddyletswydd yn adran 8 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dyma'r amcanion rydym yn eu defnyddio i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant yn y Ddeddf.

Eleni, am yr ail dro, gwnaethom ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ynglŷn ag adolygu'r amcanion llesiant. Mae hyn yn gam pwysig ar gyfer cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Rhoddodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol her a safbwyntiau gwerthfawr er mwyn helpu i lywio syniadau'r Gweinidogion a chefnogi'r gwaith o gyflawni ar draws y llywodraeth. Cynhaliwyd trafodaeth am fesur cynnydd a'r defnydd o'n 50 o ddangosyddion cenedlaethol, sy'n ein helpu ni i ddangos cynnydd tuag at ein saith nod llesiant hirdymor.

Mae ein dull gweithredu yn datblygu, sy'n golygu ymgorffori adolygiadau yn y dyfodol i waith cynllunio strategol ehangach, gan gynnwys Adolygiad Gwariant Cymru, adolygu'r dangosyddion cenedlaethol a gosod amcanion llesiant newydd ar gyfer 2026-2029 gan Lywodraeth nesaf Cymru. Caiff y rhain eu sefydlu o fewn chwe mis i etholiad nesaf y Senedd, fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.

Er gwaethaf pwysau ariannol, economaidd a gwleidyddol parhaus, rydym yn parhau i ganolbwyntio'n ddygn ar gyflawni ym mlwyddyn olaf tymor y Senedd hon. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym wedi adolygu'n ofalus ein hamcanion llesiant presennol, gan gyflawni'r ddyletswydd a nodir yn adran 12 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein casgliad yn glir – mae'r amcanion presennol yn parhau i ddarparu'r fframwaith cryfaf ar gyfer cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, a byddant yn parhau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i dryloywder, partneriaeth a llesiant hirdymor pobl Cymru.